**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD LLUN, 9 RHAGFYR 2019**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones (Caderydd), C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Phillips, A.Jarrett, H.Jenkins, D.Giles, J.Hodges, C.Furlow-Harris, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd penodi'r Cynghorydd R G Jones fel Cadeirydd y cyfarfod, ac eithrio cofnod rhif 12, lle cadeiriodd y Cynghorydd P A Rees yn ei le.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:-

Y Cynghorydd D Jones - Parthed: Cyllideb Grant y Trydydd Sector - Dyrannu Grantiau ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2020/21, oherwydd ei bod yn Ymddiriedolwr CGG ac Age Connects Castell-nedd Port Talbot ac yn aelod o Gymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du Castell-nedd Port Talbot. Gan fod ei budd yn rhagfarnol, gadawodd hithau'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny.

Y Cynghorydd L C Jones - Parthed: Cronfa Gymunedol yr Aelod - Tonna, gan ei fod yn cyfeirio at ei Chronfa Gymunedol. Gan fod ei budd yn rhagfarnol, gadawodd hithau'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny.

Y Cynghorydd R G Jones - Parthed: Cronfa Gymunedol yr Aelod - Margam, gan ei fod yn cyfeirio at ei Gronfa Gymunedol. Gan fod ei fudd yn rhagfarnol, gadawodd yntau'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny.

Y Cynghorydd E V Latham - Parthed Cronfa Gymunedol yr Aelod - Gorllewin Sandfields, gan ei fod yn cyfeirio at Gronfa Gymunedol o fewn ei ward.

Y Cynghorydd P D Richards - Parthed: Cyllideb Grant y Trydydd Sector - Dyrannu Grantiau ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2020/21, oherwydd ei fod yn aelod o fwrdd Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 30 Hydref, 2019.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH 2019-20

Fe'i nodwyd gan y pwyllgor.

## 5. DEDDF IECHYD A DIOGELWCH YN Y GWAITH

**Penderfyniadau:**

1. Byddai Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ac unrhyw swyddogion a enwebwyd ganddynt yn cael eu dynodi fel archwilwyr yn unol ag Adran 19 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974.

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ac unrhyw swyddogion a ddynodwyd ganddynt fel archwilwyr i ddechrau unrhyw achosion cyfreithiol o dan Adran 38 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974.

3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ac unrhyw swyddogion a ddynodwyd ganddynt fel archwilwyr i arfer unrhyw weithrediadau a ddynodir i archwilwyr o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974.

4. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i ddiwygio'r cyfansoddiad er mwyn gweithredu'r gofynion hyn.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod yr awdurdodau priodol yn eu lle er mwyn gorfodi goblygiadau statudol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 6. INDEMNIAD I SWYDDOGION

**Penderfyniad:**

Rhoi indemniad i Nicola Pearce (yn ei rôl fel Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio) yn y ffurflen a atodwyd i'r adroddiad a ddosbarthwyd yn Atodiad 1, mewn perthynas â goblygiadau trwyddedau amgylcheddol a chyfrifoldeb statudol am y Ganolfan Adfer Deunyddiau ac Ynni (MREC) y mae gofyn i'r swyddog ei ddal, a gyda'r indemniad hwn yn dechrau ar 3 Ionawr 2020.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i ddal y Drwydded Amgylcheddol mewn perthynas â'r MREC ac i sicrhau bod yr indemniadau priodol ar waith ar gyfer y swyddogion sy'n cymryd cyfrifoldeb personol am y materion hynny.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

7. **ARIAN GRANT Y TRYDYDD SECTOR - DYFARNU GRANTIAU AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL 2020/21**

(Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd D Jones ei budd, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny.)

**Penderfyniadau:**

1. Cadarnhau'r gyllideb ar gyfer Grantiau Trydydd Sector ar gyfer 2020/21 fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Cymeradwyo dyraniadau grantiau ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector, fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Peidio â dyfarnu'r grantiau ar gyfer y ceisiadau yn Atodiad 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

4. Cadarnhau swm y grant sy'n daladwy i bob Partner Strategol fel y nodwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Cymeradwyo grantiau i sefydliadu'r trydydd sector yn unol â chynllun y cyngor.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

8. **MONITRO PERFFORMIAD ALLWEDDOL CHWARTER 2**

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad monitro.

9. **<u>CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - ABERAFAN</u>**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r penderfyniad i brynu offer hyfforddi angenrheidiol ar gyfer clwb karate Fairfield yn y Ganolfan Adnoddau Cymunedol, Stryd Michna, Aberafan, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Nigel Hunt sef £1,152.90 a dyraniad y Cynghorydd Scott Bamsey sef £1,152.90 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**<u>Rheswm dros y Penderfyniad:</u>**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

10. **<u>CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - YR ALLT-WEN</u>**

**Penderfyniad:**

Darparu wal ddringo newydd yn ardal chwarae Lôn Tanyrallt, Alltwen, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Christopher John Jones sef £10,000 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**<u>Rheswm dros y Penderfyniad:</u>**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

11. **<u>CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - GOGLEDD COEDFFRANC</u>**

**Penderfyniad:**

Ailwynebu rhannau o'r palmant ar hyd y droedffordd ar Park Drive, Gogledd Coedffranc, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Mike Harvey sef £10,000 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

12. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - MARGAM**

(Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd E V Latham ei fudd, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny. P A Rees oedd y Cadeirydd ar gyfer yr eitem hon.)

**Penderfyniad:**

Datblygu lle profiadau ac arddangos newydd i ymwelwyr o fewn Tŷ Tyrbin sydd wedi'i adnewyddu ym Mharc Gwledig Margam, Margam, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Rob Jones sef £3,679.06 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

(Ailymunodd y Cynghorydd R G Jones â'r cyfarfod gan ailafael yn rôl y Cadeirydd).

13. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - DWYRAIN SANDFIELDS**

**Penderfyniad:**

Prynu offer hyfforddi angenrheidiol a gwobrwyon hyfforddi ar gyfer clŵb pêl-droed Afan Lido Ladies and Girls, Ffordd y Dywysoges Margaret, Aberafan, a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Matthew Crowley sef £800 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 14. CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - TAI-BACH (CANOLFAN GYMUNEDOL)

**Penderfyniad:**

Plannu 11 o goed gweddol aeddfed ar dir Canolfan Gymunedol Tai-bach, Duke Street, Tai-bach. Bydd y Cynghorydd Rachel L Taylor yn cyfrannu £1,031.54 a bydd y Cynghorydd Anthony J Taylor yn cyfrannu £1,893.59 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 15. CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - TAI-BACH (HEOL FASNACHOL)

**Penderfyniad:**

Ailwynebu ardal 200 metr sgwâr o'r droedffordd ar Heol Commercial, Tai-bach a bydd y Cynghorydd Anthony J Taylor yn cyfrannu £8,106.41 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

16. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU - TONNA**

(Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd E V Latham ei fudd, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny.)

**Penderfyniad:**

Prynu offer hyfforddi newydd ar gyfer Adran Plant Bach ac Iau Clwb Pêl-droed a Rygbi Tonna, Y Pafiliwn, Mount Pleasant, Tonna, Castell-nedd a dyfarnu dyraniad y Cynghorydd Leanne Jones sef £1,637.99 dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**